*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*

# *RHONDDA CYNON TAF*

**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Rhithwir**
**Dydd Iau, 27ain Ionawr, 2022 am 11.00 am**

**Dolen gyswllt: Sarah Daniel – Uned Busnes y Cyngor**
**(Rhif ffôn. 07385086169)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Mawrth, 25 Ionawr 2022. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

## MATERION I'W TRAFOD

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2021 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 5 - 16)**

**3. CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR AR GYFER 2022/23**

Trafod papur trafod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol mewn perthynas â Setliad Llywodraeth Leol 2022/2023 a chanlyniadau cam 1 o ymgynghoriad y gyllideb, i gynorthwyo gyda'i drafodaethau wrth lunio'r strategaeth cyllideb refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

**(Tudalennau 17 - 106)**

**4. TREFNIANT ARFAETHEDIG I DDOD Â'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG PRESENNOL I BEN A PHARATOI CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG NEWYDD**

Trafod papur trafod y Cyfarwyddwr Ffyniant a Datblygu ar gynnydd y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig.

**(Tudalennau 107 - 190)**

**5. STRATEGAETH ATAL AR GYFER PLANT SY'N DERBYN GOFAL**

Trafod papur trafod Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant o ran y strategaeth atal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

**(Tudalennau 191 - 234)**

**6. TRAWSNEWID GWASANAETHAU'R BLYNYDDOEDD CYNNAR YN RHCT**

Trafod papur trafod Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant ar y cynnydd sydd wedi'i wneud ledled rhanbarth Cwm Taf Morgannwg o ran darparu system y blynyddoedd cynnar integredig yn rhan o Raglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru a thrawsnewid gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar yn RhCT.

**(Tudalennau 235 - 320)**

**7. CANLLAWIAU NEWYDD I GYNHALWYR DI-DÂL YN Y GWEITHLE**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

**(Tudalennau 321 - 400)**

**8. CYD-BWYLLGOR CORFFORAETHOL – DIWEDDARIAD**

Trafod papur trafod y Prif Weithredwr ar gyflwyno Cyd-bwyllgorau Corfforaethol fel sydd wedi'i nodi yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**(Tudalennau 401 - 410)**

## 9. ADNODDAU RHEOLI DIOGELWCH TOMENNI

Trafod papur trafod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rheng Flaen sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i sefydlu Carfan Rheoli Diogelwch Tomenni bwrpasol yn rhan o Wasanaethau Rheng Flaen.

**(Tudalennau 411 - 416)**

## 10. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD

"Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf."

## 11. CYNLLUN RHEOLI ASEDAU CORFFORAETHOL – DIWEDDARIAD INTERIM

Trafod papur trafod Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor ar y cynnydd wedi'i wneud yn erbyn themâu allweddol Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2018/23.

**(Tudalennau 417 - 448)**

## 12. REAL LIVING WAGE FOUNDATION

Trafod papur trafod Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant; Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol ar weithredu'r cynnydd cynnar yn y Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion y sector annibynnol yn Rhondda Cynon Taf ac unrhyw staff y Cyngor sydd wedi'u heffeithio gan y cynnydd, o 1 Chwefror 2022.

**(Tudalennau 449 - 454)**

## 13. DILEU DYLEDION NAD OES MODD EU CASGLU

Trafod papur trafod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol ar ddyledion nad oes modd eu casglu, a'r gofyniad i ddileu symiau penodol yn unol â meini prawf adolygu llym.

**(Tudalennau 455 - 466)**

## 14. MATERION BRYS

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro’r Gwasanaethau Llywodraethol**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd M Norris

**Swyddogion:** Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau’r Gymuned
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Neil Griffiths, Head Of Financial Services - Community & Children's Services
Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu
Paul Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo’r Cyngor
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol